**ATODIAD 3**

**ARBEDION**

Yr arbedion a ddewiswyd at ddibenion cwrdd ag elfen o'r galwadau ychwanegol am wasanaethau'r Cyngor wrth osod cyllideb 2020/21.

1. Ar 23 Gorffennaf 2019 bu i'r Cabinet ystyried adroddiad a oedd yn ceisio darogan y sefyllfa ariannol y byddwn yn ei wynebu yn 2020/21.

2. Fe nodwyd bryd hynny, oherwydd nad oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru dros y 12 mlynedd diwethaf wedi bod yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a chan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.

3. Oherwydd hynny tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.

4. Ar ben hynny, gan nad oeddwn yn gwybod beth fyddai'r cytundebau tâl fyddai'n cael ei gytuno ar gyfer y gweithlu nac ychwaith yn gwybod beth fyddai'r setliad grant gan y Llywodraeth ar gyfer 2020/21, roedd yn hynod heriol i ddarogan gyda hyder beth fyddai maint y bwlch ariannol y byddem yn ei wynebu yn 2020/21.

5. Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019 yn darogan bwlch ariannu rhwng £1.7m a £7.3m yn 2020/21 (gyda chynnydd treth 3.5%).

6. Felly, penderfynwyd gofyn i adrannau ddarganfod eu siâr nhw o £2m i adnabod arbedion ar gyfer 2020/21, gan ofyn i'r Pwyllgorau Craffu ystyried holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan yr adrannau (ac ysgolion).

7. Roedd yr holl adrannau wedi adrodd ar eu cynigion i'r pwyllgorau craffu, ac yng nghyfarfod 17 Rhagfyr 2019, cyflawnodd aelodau'r Cabinet y dasg o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n y rhestr ganlynol (gwerth £1m) gyda'r ardrawiad lleiaf ar drigolion yn y meysydd unigol.

8. Yn gyffredinol, roedd y pwyllgorau craffu yn gytûn mai dyna oedd wedi cael ei sefydlu, ond gyda rhai eithriadau.

9. Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2020/21 yn sgil 'setliad' dangosol Llywodraeth Cymru gwell na'r disgwyl ar gyfer awdurdodau lleol, roedd y Cabinet yn cefnogi barn y pwyllgorau craffu wrth benderfynu ymwrthod rhag defnyddio'r arbedion canlynol –

- Cynigion Adrannau Plant a Theuluoedd ac Economi a Chymuned sy'n ymwneud â gwasanaethau dewisol eu natur gwerth cyfanswm o **£31,000**;
- Cynnig gwerth **£112,530** o fewn maes Addysg i leihau'r gyllideb ADY ganolog yn sgil lleihad mewn gwariant perthnasol (£110,000 eisoes yn cael ei ddefnyddio i gyfarch bwlch mewn cynllun arbedion nad yw'n gwireddu);
- Cynigion gwerth cyfanswm o **£331,000** o fewn maes Oedolion oedd am gael ardrawiad ar wasanaethau rheng flaen;
- Cynnig i leihau dyraniad cyllidebau cyffredinol ysgolion o **£463,900**.

10. Wedi gwrando ar adborth cefnogol aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr, mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cyflwyno'r rhestr ganlynol o arbedion gwerth cyfanswm o £1,062,320 i'w gwireddu yn 2020/21.

11. Ni ddylai'r arbedion "effeithlonrwydd" yma gael effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd.

12. Hefyd, er mwyn cyfarch bwlch ariannol 2020/21, amcangyfrifir gellid gwireddu gwerth £923,080 o gynlluniau arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol (felly ddim yn destun penderfyniad eleni).

13. Gall gweithredu rhai o'r arbedion, wrth gwrs, orfod dilyn prosesau statudol a byddent yn ddarostyngedig i ganlyniadau prosesau o'r fath. Yn amlwg mae'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniad yn cydnabod hyn ac nid yw yn rhagfarnu eu deilliannau.

14. Byddai'r cynigion a nodir yn y rhestr ganlynol yn cynhyrchu'r arbedion £1,062,320 yn 2020/21.